


Date/Dyddiad: 05-07-17
Telephone/Rhif ffôn 01446 700111
e-mail/e-bost consultation@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111
www.valeofglamorgan/pspo



**CYNGOR BRO MORGANNWG
HYSBYSIAD O GYNNIG
DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA
2014
GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS 2017**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Cyngor Bro Morgannwg yn bwriadu gwneud y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus uchod dan Adran 59 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (y Ddeddf) a'r holl bwerau galluogi eraill.

1. Byddai'r Gorchymyn Arfaethedig yn berthnasol i ardaloedd a ddangosir ar y mapiau, sef yr 'Ardal Gyfyngedig', ceir manylion o ran gweld y mapiau ym mharagraff 5.1 yr Hysbysiad hwn.

2. Byddai'r Gorchymyn Arfaethedig yn cyfyngu a/neu wahardd y gweithgareddau canlynol a/neu eu gwneud yn ofynnol yn yr Ardaloedd Cyfyngedig:

2.1 Parhau i yfed alcohol pan fo Swyddog Awdurdodedig wedi gofyn i berson stopio.

2.2 Peidio ag ildio unrhyw alcohol sydd gan y person pan fo Swyddog Awdurdodedig yn gofyn iddo wneud felly.

2.3 Gwrthod â rhoi unrhyw gynhwysion (wedi'u selio neu heb eu selio) y credir bod alcohol ynddynt i Swyddog Awdurdodedig pan fo'n gofyn amdanynt.

3. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud y Gorchymyn Arfaethedig gan fod y gweithgareddau uchod yn yr Ardal Gyfyngedig wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y bobl hynny sy'n byw yno. Mae effaith neu effaith tebygol hyn yn un o natur parhaus neu barhaol, er mwyn gwneud hyn yn afresymol, ac mae'n cyfiawnhau'r cyfyngiadau wedi'u gosod gan y Gorchymyn hwn.

4. Bwriad y Cyngor yw rhoi'r Gorchymyn arfaethedig ar waith erbyn 20 Hydref 2017 ac y bydd mewn grym am 3 blynedd ar ôl hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan orchmynion pellach dan bwerau statudol y Cyngor.

5. Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn Arfaethedig hwn trwy'r dulliau canlynol tan 17 Awst 2017.

- Cwblhewch arolwg ar-lein yn www.valeofglamorgan/pspo
- Ar e-bost i consultation@valeofglamorgan.gov.uk
- Yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad ar ben yr Hysbysiad hwn;
- Ar y ffôn: ffoniwch 01446 700 111

5.1 Gellir gweld copi o'r mapiau y cyfeirir atynt uchod ar-lein yn www.valeofglamorgan/pspo